

Seigiau Melys

Gwlad: Afghanistan

Nod: Bydd y gwasanaeth hwn yn helpu'r disgyblion i ddeall mwy ynghylch sut mae cynhyrchu hufen iâ yn helpu trigolion Afghanistan i wrthsefyll tlodi.

Adnoddau/paratoadau:

- Defnyddiwch y cyflwyniad *Seigiau Melys* sydd ar gael i'w lawrlwytho o'r wefan christianaid.org.uk/learn
- Recordiad sain o donau a glywir o faniau hufen iâ, er enghraifft *Für Elise* neu *Greensleeves*.

Cyflwyniad

Dangos sleid 1. Pa fath o bwdin fyddech chi'n ei gael o fuwch o Wlad yr Iâ? Yr ateb: Hufen iâ! Oeddech chi'n gyfarwydd â'r gerddoriaeth glywson ni wrth i ni gyrraedd y gwasanaeth heddiw? Tôn gyfarwydd yw e o faniau hufen iâ ledled y wlad. Felly fe fyddwch chi'n siŵr o fod wedi dyfalu erbyn hyn fod ein gwasanaeth ni'n ymwneud â hufen iâ. Mae hi bron yn ddiwedd y tymor ysgol ac rwy'n siŵr eich bod chi bob un yn paratōi eich hunain ar gyfer gwyliau hir yr haf. I lawer ohonon ni, mae gan fisoedd yr haf gyswllt agos â bwyta hufen iâ! Oes yna rywun yma sydd ddim yn hoffi hufen iâ? Fel roeddwn i'n meddwl, mae'r rhan fwyaf ohonoch chi'n ei hoffi. Oes gyda chi hoff amrywiaeth neu frand? Pa flas sydd orau?

Dangos sleid 2. Dywedir bod hanes 'hufen iâ' yn dyddio'n ôl i oes Ymerodraeth Persia, 400 CC. Byddai pobl yn bwyta sudd grawnwin yn gymysg ag eira. Dyna'r ardal y galwn ni heddiw yn Iran. Tua 200 CC, roedd pobl China yn bwyta cymysgedd wedi ei rewi o laeth a reis. Mor gynnar â'r 10fed ganrif, roedd hufen iâ'n gyffredin ymysg trigolion dinasoedd mwyaf pwysig y byd Arabaidd – dinasoedd fel Bagdad, Damascus a Cairo. Oddi ar y cyfnod hwnnw, mae hufen iâ wedi datblygu llawer! Dim ond i chi gerdded heibio i unrhyw barlwr hufen iâ ac fe welwch chi amrywiaeth anhygoel o flasau, lliwiau a chyfuniadau.

Mae llawer o'r rhai sy'n cynhyrchu hufen iâ yn honni mai eu hufen iâ nhw yw'r un gorau yn y byd. Ond beth am hufen iâ fyddai'n gallu newid y byd? Ble byddech chi'n disgwyl dod o hyd i hwnnw? Yn y siopau hufen iâ gogoneddus? Yn y *gelateria* yn yr Eidal? Neu'r *helanderías* yn Sbaen? Fe synnwch glywed bod un hufen iâ o'r math hwnnw i'w gael yn Herat, Afghanistan.

Dangos sleid 3. Gwlad yn Asia yw

Afghanistan gyda poblogaeth o tua 31 miliwn, sydd tua hanner poblogaeth gwledydd Prydain ond o ran maint y wlad, mae Afghanistan tua dwy a hanner maint tiriogaeth Prydain. Daw'r cymariaethau rhwng y ddwy wlad yn fwy amlwg wrth i ni ystyried materion yn ymwneud â thlodi.

Pe bawn i'n rhoi £1 i chi nawr, ar beth fyddech chi'n ei wario? Beth allwch chi ei brynu am £1? Yn Afghanistan, mae dros hanner y boblogaeth yn byw mewn tlodi, tra bod 36 y cant o'r boblogaeth - mwy nag un o bob tri pherson - yn byw mewn tlodi eithafol. Hynny yw, yn byw ar lai na £1 y dydd, sy'n arian bach iawn. Mae rhywun o Afghanistan yn debygol o fyw nes ei fod e neu hi yn 44 mlwydd oed. Yn ein plith ni yma, mae hyn yn codi i 79 oed. Mae addysg yn fater pwysig iawn wrth drafod sut i geisio gwella cyflwr pobl dlawd. Yn Afghanistan, dim ond 28 y cant o'r boblogaeth sy'n gallu darllen ac ysgrifennu (a gall ond llai na 13 y cant o ferched y wlad ddarllen ac ysgrifennu). Cymharwch hynny â gwledydd Prydain lle mae 99 y cant yn llythrennog.

Dioddefodd Afghanistan o ganlyniad i wrthdaro parhaol dros lawer blwyddyn a bu Cymorth Cristnogol yn gweithio yno trwy eu partneriaid mewn mudiadau arbennig ers tri degawd. Ardal yn agos at y ffin ag Iran yw Herat. Anialwch yw'r rhan fwyaf o'r tir ac mae'n anodd ei ffermio. Yn yr ardal honno, mae teuluoedd yn magu geifr a defaid er mwyn bwydo eu hunain ac i ennill ychydig o arian.

Dangos sleid 4. Gellir gwerthu anifeiliaid ac, yn ogystal â hynny, gwerthu eu cynnyrch, er enghraifft, laeth, yoghurt, caws a gwlan. Ond nid oes gan y teuluoedd tlodaf naill ai'r arian na'r offer na'r sgiliau i'w galluogi i gynhyrchu'r pethau hyn. Gall hefyd fod yn anodd iddynt gael gafael ar filfeddyg i ofalu am les yr anifeiliaid. Yn ystod y blynyddoedd diweddaraf yma, bu cyfnodau o sychder a hefyd gaeafau oer iawn ac, o ganlyniad, bu farw llawer o anifeiliaid gwerthfawr y teuluoedd tlawd.

Trwy gydweithio gydag elusen leol o'r enw Gwasanaeth Cydweithredu er Hyrwyddo Adfywiad a Datblygiad Afghanistan (*Coordination for Rehabilitation and Development Service Afghanistan* – CRDSA) mae Cymorth Cristnogaeth wedi bod yn helpu pobl yn ardal Herat i ennill bywoliaeth fwy dibynadwy. Cafodd y teuluoedd tlotaf sawl gafr, ynghyd ag hyfforddiant syml gan filfeddyg ar sut i ofalu'n well am eu hanifeiliaid. Cafodd ffermwyr hadau arbennig sy'n tyfu'n dda mewn ardaloedd lle mae sychder yn debygol. Roedd hyn yn golygu y byddai digon o fwyd i'r anifeiliaid pan fyddai'r hadau'n tyfu, y byddai'r creaduriaid yn pesgi ac, o ganlyniad, yn cynhyrchu llaeth gydol y flwyddyn.

Ond beth am yr hufen iâ?

Dangos sleid 5. Helpodd Cymorth Cristnogol y ffermwyr hyn yn ardal Herat i ddod at ei gilydd i ffurfio grwpiau cydweithredol. Fe sefydlon nhw Ganolfan Casglu Llaeth sy'n golygu bod gwell trefn ar y ffordd mae llaeth yn cael ei gasglu a'i ddosbarthu. Mae'r ffermwyr wedi'u gosod mewn mudiadau cydweithredol ar hyd 10 pentref, yn cynnwys 225 aelod. Mae'r ffermwyr hyn yn dod â'u llaeth i'r ganolfan brosesu. Cynhyrchwyr caws ac iogwrt sy'n prynu'r rhan fwyaf o'r llaeth. Mae'r llaeth ychwanegol yn cael ei werthu i Gwmni Hufen Iâ Herat, y cwmni mwyaf o'i fath yn Afghanistan.

Dangos sleid 6. Er bod math traddodiadol o hufen iâ o'r enw *shir yakh* (iâ llaeth) wedi cael ei fwyta trwy Afghanistan i gyd ers canrifoedd, erbyn hyn mae pobl yn dechrau mwynhau dewis mwy cyffrous o flasau a lliwiau, fel mwyar, saffrwn, coffi a melon dŵr. Mae Cwmni Hufen Iâ Herat yn gwerthu'r cynnyrch yn llawer o ddinasoedd Afghanistan a hefyd o droliau ar y strydoedd, gyda cherddoriaeth i dynnu sylw –

mae'n debyg mai'r ddwy gân mwyaf poblogaidd yw Celine Dion yn canu "*My Heart Will Go On*" a *Für Elise* gan Beethoven!

Dangos sleid 7. Mudiad yw Cymorth Cristnogol sy'n credu y gall pobl lwyddo i newid sefyllfa. Mae'n credu y gall tlodi yn y byd gael ei ddileu a hynny drwy bobl fel chi a fi.

Dangos sleid 8. Yn ystod y flwyddyn hon fe glywsocch am bob math o weithgarwch y mae Cymorth Cristnogol yn ymwneud ag e, a hefyd am rai o'r bobl y bu Cymorth Cristnogol yn cydweithio â nhw. Gall eu straeon nhw a'u profiadau o fywyd fod yn wahanol iawn i'n rhai ni. Buon ni'n trafod rhai o bynciau mawr y dydd a'u heffaith ar bobl: tlodi, newyn, yr hawl i ddŵr glân, masnach ryngwladol, hawliau dynol.

Dangos sleid 9. Ambell dro, gall y pynciau hyn ymddangos yn rhy anodd i'w trin, yn rhy gymhleth i'w deall. Ond a dweud y gwir, yn y bôn, mater yw e o bobl fel ni yn dymuno newid pethau er gwell.

Ac mae sawl peth bach y gallwn ni i gyd ei wneud. Gallwn benderfynu prynu siocled Masnach Deg neu ystyried o ble mae'n dillad ni'n dod a phwy sy'n eu gwneud nhw. Gallwn benderfynu gwastraffu llai o fwyd, diffodd switsys, ailgylchu mwy. Gall gwneud pethau bychain newid bywydau. Ac i rai mae hynny'n fyd o wahaniaeth.

Myfyrdod

Defnyddiwch y myfyrdod **God of Justice** o'r adnodd *Just Living* sydd ar gael yn <http://learn.christianaid.org.uk/TeachersResources/secondary/just-living-unit-1.aspx> neu'r animeiddiad *Poverty Over* sydd ar gael yn <http://www.youtube.com/watch?v=kLBZ14FzOww>

Gweithredu

- Cewch fwy o wybodaeth am waith Cymorth Cristnogol yn Afghanistan ar y wefan yma: <http://www.christianaid.org.uk/whatwedo/asia/afghanistan.aspx>
- I helpu wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol, gellir dod o hyd i adnoddau Cymorth Cristnogol ar y wefan yma: christianaid.org.uk/learn
- Trwy ymuno â'n Cynllun Partneriaeth gall eich ysgol wneud gwahaniaeth gwirioneddol i gymunedau tlawd yn y byd sy'n datblygu. Cewch fwy o fanylion yn <http://www.christianaid.org.uk/getinvolved/communitypartnership/index.aspx>
- Mwynhewch y gwylliau haf – rydych chi'n ei haeddu!